# LLWYD, ROBERT, 'o'r Waun ' (1565 - 1655), clerigwr a llenor

**Enw:** Robert Llwyd
**Dyddiad geni:** 1565
**Dyddiad marw:** 1655
**Plentyn:** Jane Llwyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a llenor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Glanmor Williams

Ganwyd yn Sir Gaernarfon. Ymaelododd yng Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychen, 29 Hydref 1585, a graddiodd yn B.A. 6 Gorffennaf 1588, M.A., 10 Gorffennaf 1591. Bu'n rheithor Helygain (Halkin), 1594-1626, ficer Wrecsam, 1595-1640, ficer y Waun (Chirk), 1615-50, ac yn brebendari Meliden a thrysorydd Llanelwy, 1624-48. Bu hefyd yn rheithor segurswydd Llandysul, Sir Drefaldwyn, 1625; claddwyd ei ferch, Jane, yno, yn 1633. Yr oedd yn un o'r ychydig glerigwyr a amcanai at godi safon grefyddol y Cymry trwy baratoi llenyddiaeth ddefosiynol ar eu cyfer. Cyhoeddodd *Pregeth ynghylch Edifeirwch*, cyfieithiad o waith Arthur Dent, Presbyteriad Seisnig, yn 1629. Yn 1630, ar gais John Hanmer, esgob Llanelwy cyhoeddodd *Llwybr Hyffordd yn cyfarwyddo'r anghyfarwydd i'r nefoedd, etc.*, cyfieithiad o'r *The Plaine Mans Path-way to Heaven* gan Dent. Dywedir mai ef hefyd a olygodd ' *Feibl Bach* ' 1630. Heblaw cyfieithu ei hun, bu'n athro i Rowland Vaughan. Difuddiwyd ef o ficeriaeth y Waun gan gomisiynwyr y Werinlywodraeth yn 1650, ond cafodd gadw £20 y flwyddyn o incwm y fywoliaeth. Bu farw yn 1655.

## Awdur

**Syr Glanmor Williams**

## Ffynonellau


*Alumni Oxonienses*, 1500 - 1714, iii, 929

*Enwogion y Ffydd* (1880), i, 151-8

W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600*, 112-3

T. Richards, *A History of the Puritan Movement in Wales* (1920), 10, 117, 139

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 104-6, 110-1

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), i, 341, 528; ii, 318



**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu